Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel
Dyddiad: Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2019
Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Naomi Stocks
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6222
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12.30)

2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 3 a 6 yn y cyfarfod heddiw

(12.30)

3 Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd yng Nghymru: trafod yr adroddiad drafft

(12.30-13.00) (Tudalennau 1 – 12)

4 Gwaith dilynol ar ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn – Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

(13.00-14.15) (Tudalennau 13 – 35)

Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Clare Severn, Pennaeth y Rhaglen Diogelwch Adeiladau
Francois Samuel, Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu
Steve Bryant, Cynghorydd Cynorthwyol Tân ac Achub
Steve Pomeroy, Pennaeth y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub

5 Papurau i'w nodi

(14.15) (Tudalen 36)

5.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar eiddo gwag

(Tudalennau 37 – 42)

5.2 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch cysgu ar y stryd yng Nghymru – 29 Tachwedd 2019**

(Tudalennau 43 – 44)

6 Gwaith dilynol ar ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn – trafod y dystiolaeth

(14.15–14.30)

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Diogelwch rhag Tân mewn Adeiladau Uchel Iawn

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dydd Iau, 21 Tachwedd 2019

Ystadegau Tân yng Nghymru

Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru ar ei isaf erioed, a dros y blynyddoedd diwethaf mae'r nifer hwn wedi bod yn gostwng yn gynt yma nag yn unrhyw le arall ym Mhrydain.

Gwelwyd tuedd ar i lawr yn nifer y tanau yng Nghymru ers 2001-02. Dengys y ffigurau diweddaraf fod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru wedi lleihau dros un rhan o bump yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. Felly, mae gennym enw da o ran diogelwch rhag tân a sylfaen gref i adeiladu arni.

Mae'r canlyniadau cadarnhaol hyn i'w priodoli'n bennaf i'n gwasanaethau tân ac achub gwych, sy'n cynnal y nifer mwyaf o wiriadau diogelwch tân yn y cartref ym Mhrydain. Gwyddom mai ymddygiad gwael yn hytrach na chynhyrchion gwael sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o danau, ac mae gwaith diflino ein gwasanaethau tân ac achub i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd am strategaethau atal tân wedi cael effaith syfrdanol ar ein hystadegau tân.

Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod am 1,429 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod 2018-19 yng Nghymru. Mae tanau'n cael effaith drychinebus ar fywydau pobl. Yn sgil y tanau hyn, bu farw 14 o bobl a chafodd 106 o anafusion eu derbyn i'r ysbyty. Amcangyfrifodd y diwydiant yswiriant fod cost gyfartalog tân mewn cartref o ran difrod i eiddo yn fwy na £40,000, a bod y gost i gymdeithas yn fwy cyffredinol yn anfesuradwy.

Achos mwyaf cyffredin tanau damweiniol mewn cartrefi yw camddefnyddio teclynnau (y popty fel arfer), a oedd yn gyfrifol am tua thraean o'r achosion y llynedd. Gellir priodoli dros 75% o danau mewn cartrefi y mae eu hachos yn hysbys i ymddygiad anniogel yn hytrach na theclynnau, gosodiadau neu safleoedd anniogel. Damweiniau yn ymwneud â theclynnau neu gyflenwadau tanwydd diffygiol oedd yn gyfrifol am ychydig yn llai na chwarter y tanau mewn cartrefi, yna gosod rhywbeth yn rhy agos at ffynhonnell gwres. Mae yna rai pobl hefyd sy'n wynebu mwy o risg o ddioddef tân a/neu o gael niwed os bydd tân, gan gynnwys: pobl hŷn, pobl sydd ag anableddau/problemau iechyd meddwl penodol, smygwyr, pobl â phroblemau alcohol a chyffuriau, a rhieni unigol.

Mae tanau mewn cartrefi yn cyfrif am lai nag 20% o'r holl danau, ond mwy nag 80% o'r bobl sy'n cael eu hanafu neu eu lladd gan danau. Felly, mae'r data hyn yn awgrymu bod mwy o siawns y bydd rhywun yn cael ei anafu neu ei ladd mewn tân ar safle domestig.

Cynyddu diogelwch tân cyffredinol trwy ôl-osod systemau chwistrellu

Gwyddom fod systemau chwistrellu yn ymyrraeth effeithiol ar gyfer lleihau'r risg i fywyd ac anafiadau. Cydnabyddir yn eang eu bod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at achub bywydau a chyfyngu ar niwed os bydd tân. Mae gallu systemau chwistrellu i ddiffodd tanau'n effeithlon ac yn gyflym yn cynnig nifer o fuddiannau. Mae gan systemau chwistrellu y fantais o allu targedu tanau yn y tarddiad a lleihau'r risg y byddant yn lledaenu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth yn 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i systemau chwistrellu gael eu gosod mewn adeiladau newydd ac adeiladau sy'n cael eu haddasu.

Er nad yw tân, yn ôl ystadegau, yn fwy tebygol o ddigwydd mewn adeilad preswyl uchel, mae adeilad uchel yn creu mwy o gymhlethdodau o ran y posibilrwydd y bydd tân yn lledaenu a'r ffordd y gall y rhai sydd yn yr adeilad ddianc. Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif helaeth o adeiladau preswyl uchel eu hadeiladu cyn i'r gofynion hyn gael eu cyflwyno ac felly nid oes systemau chwistrellu wedi cael eu gosod ynddynt fel mater o drefn.

Mae ôl-osod systemau chwistrellu mewn adeiladau presennol yn parhau i fod yn fater i'r unigolyn cyfrifol er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel rhag tân fel rhan o raglen o welliannau rheolaidd i'r adeilad. Mater i berchenogion adeiladau yw ceisio cyngor proffesiynol a phenderfynu a ddylid gosod systemau chwistrellu, ar sail eu hasesiad o'r risg benodol a wynebir yn eu hadeilad(au).

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried a ellir datblygu benthyciad cost isel er mwyn annog perchenogion i osod systemau chwistrellu, gan ganolbwyntio'n benodol ar adeiladau preswyl uchel. Er fy mod yn awyddus i archwilio pa gymorth y gallem ei ddarparu i wella diogelwch adeiladau, nid wyf am ryddhau perchnogion adeiladau o'u cyfrifoldeb yn y maes hwn.

Byddaf yn ysgrifennu eto at y Pwyllgor ar y mater hwn ar ôl imi gytuno ar y cynlluniau mae fy swyddogion yn datblygu.

Er bod systemau chwistrellu yn gwella diogelwch adeiladau rhag tân yn sylweddol, nid ydynt ateb i ddiffygion diogelwch presennol mewn adeiladau fel y rhai hynny a welir mewn nifer o adeiladau uchel yng Nghymru. Lle y nodwyd achosion o dorri diogelwch tân, rhaid i gynlluniau unioni gael eu rhoi ar waith er mwyn unioni'r diffygion hynny cyn gynted â phosibl. Rwyf wedi bod yn gyson o ran fy neges na all y trethdalwr dalu'r pris am ddiffygion y gwaith o ddylunio neu adeiladu adeiladau preswyl sector preifat. Dylai perchenogion adeiladau a datblygwyr wynebu eu cyfrifoldeb moesol ac unioni'r diffygion hyn, neu fel arall beryglu eu henw da proffesiynol.

Mae fy swyddogion yn trafod gyda’u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch a oes modd deddfu adran ar atebolrwydd sifil dan Ddeddf Adeiladu 1984. Dyma un ateb posib i’r problemau sy’n cael eu hachosi gan fethiant cwmnïau adeiladu penodol i gadw at eu gair.

Mesurau Dros Dro i Wella Diogelwch Adeiladau

Mae'r pwyllgor hwn, ynghyd â'r Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladu yn ei *Fap,* wedi argymell nifer o gamau gweithredu ar gyfer y tymor hwy, yn ogystal â rhai mwy uniongyrchol.

Byddaf yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Adeiladau cyfredol er mwyn gwahardd y defnydd o ddeunyddiau cladin llosgadwy, gan nodi'n glir y deunyddiau cladin sy'n dderbyniol ar adeiladau preswyl uchel. Byddwn yn disgwyl i'r diwygiadau hyn gael eu cyflwyno erbyn y Nadolig ar ôl cael eu clirio gan y Pwyllgor Technegol Ewropeaidd.

Byddwn yn mynd ati'n fuan i ymgynghori ar y cynnig i wneud y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgynghorai statudol ar gamau cynllunio datblygiadau uchel newydd. Bydd hyn yn sicrhau y ceir cyngor arbenigol ar ddiogelwch rhag tân yn gynnar yn y broses dylunio ac adeiladu, gan greu cysylltiadau gwell rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub ac awdurdodau lleol.

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU o ran profi drysau tân a mathau gwahanol o ddeunyddiau cladin ar gyfer waliau allanol. Bydd hyn yn arwain at well gwybodaeth a dealltwriaeth i breswylwyr, perchenogion tai, asiantau rheoli a landlordiaid ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno cynhyrchion diogel o ansawdd uchel i'r farchnad.

Rwy'n ystyried ffyrdd o sicrhau y caiff asiantau rheoli eu cofrestru er mwyn cefnogi arferion gorau a mynd i'r afael â gweithredwyr amheus. Bydd cynllun achredu gwirfoddol cychwynnol ar gyfer asiantau rheoli yn cynhyrchu tystiolaeth i lywio'r gwaith o greu system orfodol. Cafodd hyn ei argymell gan y Pwyllgor hwn ac fel rhan o'r gwaith diwygio mewn perthynas â lesddeiliaid. O dan y system diogelwch adeiladau newydd, bydd cynllun o'r fath yn sail i gofrestru neu drwyddedu deiliaid dyletswydd yn ystod cyfnod meddiannaeth cylch oes adeilad.

Mesurau Tymor Hwy

Roedd nifer o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor hwn a'r *Map* yn galw am gamau gweithredu hirdymor. Bydd y papur gwyn y byddaf yn ei gyhoeddi yn canolbwyntio ar system y dyfodol a'r newidiadau deddfwriaethol y bydd eu hangen arnom er mwyn sefydlu'r drefn newydd.

Fel rhan o'r system rheoli adeiladau presennol, yr unigolyn sy'n gwneud y gwaith adeiladu sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, fel y mae'r Fonesig Judith Hackitt yn ei nodi, mae'r system rheoli adeiladau presennol yn gymhleth, heb unrhyw broses na chyfrifoldeb clir i'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith adeiladu.

Rwy'n cynnig y dylai gofynion ychwanegol system ddiwygiedig ganolbwyntio ar adeiladau preswyl uchel dros 18 metr o uchder, ond rhaid i'r system fod yn ddigon hyblyg i sicrhau y gellir ymestyn y cwmpas yn hawdd i gynnwys mwy o adeiladau os bydd y dystiolaeth yn ategu hyn. Lle y bo'n briodol gwneud gwelliannau i'r system ar gyfer pob math o adeilad, byddaf yn gwneud hynny. Lle y bo'n bosibl, rwy'n bwriadu gwneud adeiladau'n fwy diogel i fwy o bobl ac nid dim ond i'r rhai hynny sy'n byw mewn fflatiau uchel.

Dylid adeiladu a dylunio adeiladau domestig mewn ffordd sy'n golygu bod y risg o dân yn cael ei lleihau ac, os bydd tân yn digwydd, fod mesurau ar waith i gyfyngu ar ymlediad y tân a'r mwg er mwyn galluogi'r preswylwyr i ddianc yn ddiogel. Fodd bynnag, yr un mor bwysig, dylai fod mesurau ar waith i alluogi diffoddwyr tân i ddelio â thân yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach mewn adeilad uchel iawn lle y gall fod yn anoddach i ddiffodd y tân a dianc.

Rwy'n ystyried rôl deiliad dyletswydd dros gylch oes adeiladau preswyl. Credaf y gallwn ddilyn Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007 wrth bennu rôl deiliaid dyletswydd; mae'r rheoliadau hyn yn helpu i liniaru risgiau i iechyd a diogelwch ar y safle, ac wrth ddylunio adeiladau a'u cynnal a'u cadw'n barhaus ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Mae rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) yn berthnasol i bob prosiect adeiladu, ni waeth beth fo'i faint. Dylai'r un peth fod yn wir hefyd am ddiogelwch adeiladau.

Mae'r *Map* yn nodi cynllun ysgerbydol ar gyfer proses rheoli adeiladau diwygiedig, gan roi mwy o drefniadau pwyso a gwrthbwyso ar waith ar gyfer adeiladau preswyl dros 18 metr o uchder. Mae grŵp gorchwyl a gorffen, wedi'i gefnogi gan fy swyddogion, yn ystyried sut y gellir rhoi mwy o gig ar yr asgwrn a throi hyn yn broses rheoli adeiladau newydd ar gyfer y dyfodol.

Rwyf hefyd am fynd ymhellach i fynd i'r afael â materion yn ystod y cyfnod meddiannaeth. Mae hyn yn golygu diwygiad cynhwysfawr o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('y Gorchymyn Diogelwch Tân'). Cytunaf â'r Pwyllgor ei bod yn hen bryd i'r Gorchymyn Diogelwch Tân gael ei adolygu, gyda'i ddiben gwreiddiol bwriadedig ar gyfer gweithleoedd, nid adeiladau preswyl.

Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hyn, gan fod y pwerau i ddiwygio’r Gorchymyn Diogelwch Tân drwy Orchymyn wedi’u diddymu ers amser ac nid oeddent wedi’u datganoli i Gymru erioed. Bydd hyn yn flaenoriaeth uchel, ond efallai na fydd modd cyflawni Bil mor bellgyrhaeddol cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

Fodd bynnag, byddai diwygio'r Gorchymyn Diogelwch Tân ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn yn unig yn colli cyfle. Mae materion o ran diffinio ardaloedd cyffredin a dod o hyd i'r unigolyn cyfrifol yn berthnasol os yw'r bloc o fflatiau ar gyfer 10 annedd neu ar gyfer 100. Dyna pam rwy'n bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau sy'n effeithio ar lawer mwy nag adeiladau dros 18 metr o uchder yn unig.

Gwnaeth y *Map* hefyd drafod yr angen i egluro rolau a chyfrifoldebau a gwnaeth argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd i ddisodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân er mwyn darparu eglurder a datrys rhai materion allweddol.

Bydd fy nghynlluniau ar gyfer diwygio'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gosod mwy o ddisgwyliadau mewn perthynas ag adeiladau preswyl uchel iawn, ond byddant hefyd yn cael eu hegluro a'u gwella i helpu'r rheini sy'n byw mewn cartrefi a gynrychiolir yn y Gorchymyn Diogelwch Tân.

Bydd y diwygiadau yn canolbwyntio ar egluro'r ffiniau rhwng yr 'ardaloedd cyffredin' y mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol iddynt, a'r gydberthynas rhwng y Gorchymyn Diogelwch Tân a'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai o dan

Ddeddf Tai 2004. Bydd hefyd yn sefydlu gofynion clir a phendant ar gyfer personau cyfrifol, preswylwyr ac eraill i gynnal yr rhaniadau rhwng fflatiau sydd yn hanfodol o ran diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn. Y diffyg dealltwriaeth a chydlyniant rhwng y ddwy system ddeddfwriaethol hyn oedd un o feirniadaethau'r Pwyllgor o'r system gyfredol, fel y dangosir gan y dryswch ynglŷn â ph'un a ystyrir drysau tân sy'n gweithredu fel drysau blaen fflatiau yn rhan o'r ardal gyffredin. Byddaf yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd a'i chanllawiau ategol yn glir i'r rheini sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyfreithiol, a'r rheini y bydd angen iddynt gymryd camau gweithredu, megis landlordiaid, lesddeiliaid a thenantiaid.

Bydd y Gorchymyn Diogelwch Tân diwygiedig yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn cyfrifol yn ystod y cyfnod meddiannaeth yn glir, fel y gall preswylwyr ei ddwyn i gyfrif a, lle y bo angen, y gellir cymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol yn gyflym. Rwyf o’r farn y dylai unigolyn cymwysedig addas gynnal yr asesiadau risg tân a dylai fod yn ofynnol i gamau gael eu cymryd yn brydlon i liniaru unrhyw risgiau.

Rwy'n ystyried y ffordd orau o nodi unigolion cyfrifol, er enghraifft drwy gofrestru neu drwyddedu, fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn well. Hoffwn gyflwyno system gofrestru orfodol ar gyfer pob unigolyn cyfrifol, a fyddai'n debyg o bosibl i'r ffordd y mae Rhentu Doeth Cymru wedi trwyddedu landlordiaid er mwyn annog arfer gorau. Fy nod yw sicrhau bod pob asiant rheoli yn cael ei gofrestru ar gyfer unrhyw adeilad preswyl sy'n rhan o gwmpas y Gorchymyn Diogelwch Tân diwygiedig, a'i fod wedi'i drwyddedu ar gyfer y blociau hynny dros 18 metr o uchder. Fodd bynnag, hoffwn wneud hyn yn gyflym a byddaf yn cynnig system wirfoddol gychwynnol er mwyn caniatáu amser i ymgyfarwyddo a chasglu gwybodaeth cyn sefydlu system orfodol yn y dyfodol.

Byddaf hefyd yn mynd i'r afael â materion eraill. Dylai trigolion hefyd gael gwybodaeth diogelwch tân hanfodol, ynghyd â gwybodaeth am y broses o godi pryderon ynghylch diogelwch yr adeilad. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i greu canllaw arfer gorau ar y cyd o ran y wybodaeth y dylid ei darparu i breswylwyr. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn ei weld yn cael ei ymestyn i bob sector. Mae gennym rai enghreifftiau gwych o ymgysylltu â phreswylwyr, cyfathrebu cadarn a phrosesau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yng Nghymru. Dylai hyn fod yn arfer cyffredin ni waeth beth yw deiliadaeth y preswylydd.

Ymchwiliad Grenfell

Gwnaeth trychineb tŵr Grenfell synnu'r byd ddwy flynedd yn ôl. Roedd maint y tân, nifer y bywydau a gollwyd a pha mor gyflym y digwyddodd y tân o hyd yn peri gofid mawr. Os daw unrhyw beth cadarnhaol o'r digwyddiad hwn, dylai ymwneud â gwelliant gwirioneddol ym maes diogelwch tân a diwygio’r system a oedd wedi caniatáu tor rheoliadau adeiladu o'r fath a diffyg sylw i nodweddion diogelwch tân sylfaenol.

Caiff yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd o'r ymchwiliad i ddigwyddiadau'r noson honno ei ystyried yn ofalus a bydd unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried yma yng Nghymru, ar y cyd â'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Yn

bennaf, mae’r rhain yn wersi gweithredol y bydd yn rhaid i’r Gwasanaeth Tân eu dysgu a’u rhoi ar waith, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny. Byddwn, fodd bynnag, yn gweithio gyda’n partneriaid i sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

Bydd y materion hyn a'r argymhellion yn bwydo i mewn i'r rhaglen diogelwch adeiladu a chaiff unrhyw gynigion ar gyfer deddfwriaeth o ganlyniad i hynny eu cynnwys yn fy mhapur gwyn y bwriadaf ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf. Mae'n bryd creu system newydd yng Nghymru sy'n addas ar gyfer ein dyfodol.

Ychwanegol

Llythyr anfonwyd gan y Pwyllgor (25 Hydref 2019);

Yn eich datganiad, dywedasoch fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut i gynyddu capasiti i ymgymryd â gwaith o'r fath (profion lefel 4). A allech chi roi rhagor o fanylion ynghylch faint o amser rydych yn disgwyl i hyn ei gymryd?

Rwy'n deall y dyhead i wneud profion lefel 4 yn orfodol ym mhob adeilad preswyl uchel iawn, yn arbennig yng ngoleuni problemau a gododd yn ddiweddar mewn eiddo ym Mae Caerdydd ac Abertawe.

Mae profion lefel 4, a elwir yn brofion dinistriol yng nghanllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol ar ddiogelwch rhag tân mewn blociau o fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol, yn caniatáu i archwilwyr annibynnol ymchwilio y tu hwnt i'r hyn sy'n weladwy ar yr wyneb, gan ei gwneud yn bosib gweld problemau gyda'r rhaniadau rhwng fflatiau.

Hoffwn ddweud yn glir nad y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal archwiliadau o'r fath. Maent yn cael eu cynnal fel rheol gan aseswyr annibynnol. Adnoddau yw un o'r problemau i'w goresgyn yma, ond mae pwynt mwy sylfaenol i'w wneud hefyd. Yn sgil natur ddinistriol profion lefel 4, maent yn aml ond yn cael eu cynnal mewn fflatiau gwag. Mae'r canllawiau yn awgrymu bod y lefel hon o brofi ond yn briodol dan amgylchiadau cyfyngedig, er enghraifft pan fo bylchau sylweddol yng ngwybodaeth perchennog yr adeilad, neu bod peryglon difrifol yn cael eu hamau.

Mae perygl i brofion lefel 4 hefyd darfu ar asbestos mewn adeiladau, felly rhaid eu cynllunio'n ofalus a'u cynnal gan arbenigwyr.

Wrth i berchnogion adeiladau ddechrau dwyn gwybodaeth ynghyd i ffurfio 'Edefyn Aur' i'w helpu i reoli eu heiddo, byddwn yn disgwyl i fwy o adeiladau gael arolygon manwl a allai gynnwys mwy o brofion lefel 4. Bydd hyn yn caniatáu i berchnogion ac asiantau rheoli gael gwell dealltwriaeth am eu hadeiladau a sicrhau bod eu cynlluniau diogelwch rhag tân yn briodol a bod y preswylwyr yn gwybod amdanynt.

A fyddech cystal ag anfon rhagor o fanylion (i'r Pwyllgor) am eich trafodaethau â'r asiant rheoli a'r datblygwyr mewn perthynas â'r problemau yn Celestia?

Mae swyddogion wedi bod yn trafod â'r asiant rheoli (Parkmans) a sefydliadau eraill ynghylch datblygiad Celestia. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyngor Caerdydd, cwmni rheoli'r preswylwyr ar gyfer y fflatiau dan berchnogaeth breifat (Celestia Management Company Limited), Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain.

Mae datblygiad Celestia ym mae Caerdydd yn cynnwys 8 bloc o fflatiau preswyl. Mae 7 ohonynt dan berchnogaeth breifat ac 1 bloc yn eiddo i Gymdeithas Tai Cymuned Caerdydd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cyhoeddi nifer o hysbysiadau gorfodi i gywiro namau gyda'r rhaniadau mewnol rhwng fflatiau a materion yn ymwneud â mynediad mewn perthynas ag eiddo dan berchnogaeth breifat yn ystod mis Awst a mis Hydref 2019. Mae'r asiant rheoli a'r cwmni rheoli preswylwyr wedi dweud wrth swyddogion bod cynlluniau yn eu lle i roi sylw i'r materion hyn. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr hysbysiadau gorfodi sy'n ymwneud â materion mynediad ar hyn o bryd yn destun apêl.

Yn ystod trafodaethau â'r asiant rheoli a chwmni rheoli'r preswylwyr, mae swyddogion wedi dod yn ymwybodol o'r ohebiaeth rhyngddynt a'r datblygwr a'r contractwr. Fe gafodd swyddogion wybod am drafodaethau sensitif a chymhleth, a oedd yn cynnwys cynghorwyr cyfreithiol y partïon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch preswylwyr drwy gyfeiriadau polisi priodol, diwygiadau i ddeddfwriaeth a hwyluso rhwng cyrff gorfodi, ac fe fydd yn parhau i ganolbwyntio ar hynny.

Yn unol ag achosion tebyg, mae'r pwerau a'r dyletswyddau sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau unigol yn gorffwys gydag Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, nid gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i drafod â'r asiant rheoli ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn parhau i weithio gyda'r asiant rheoli a chwmni rheoli'r preswylwyr.

Bydd swyddogion yn parhau i fonitro datblygiadau yn Celestia drwy drafodaethau cyffredinol parhaus gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Awdurdod Lleol. Bydd swyddogion hefyd yn parhau i drafod â'r asiant rheoli.

Eitem 5

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

5 Rhagfyr 2019 – tudalen flaen papurau i'w nodi

Papur rhif:	Mater o dan sylw	Oddi wrth	Cam gweithredu
ELGC(5)-34-19 Papur 1	Ymchwiliad i eiddo gwag	Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi
ELGC(5)-34-19 Papur 2	Ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru	Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi

Eitem 5.1

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar Eiddo Gwag gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae eiddo gwag yn bryder sylweddol i Lywodraeth Cymru ac rwy'n croesawu canlyniad yr ymchwiliad ac yn cydnabod gwaith caled y Pwyllgor i gasglu’r holl dystiolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun cynhwysfawr i ni o’r sefyllfa mewn perthynas ag eiddo gwag. Bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fanteisio ar arbenigedd yn y farchnad, i ychwanegu at ein llwyddiannau yn y gorffennol, a hefyd i sicrhau cydweithredu cryfach fyth er mwyn mynd i'r afael â'r mater pwysig hwn. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio a manteisio i'r eithaf ar bob cyfle sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft, cydweithio â Thasglu'r Cymoedd er mwyn helpu i gyflwyno'r Grant Cartrefi Gwag.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am eu hadroddiad. Rwy'n arbennig o falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ni yn y dyfodol.

Ceir isod ymatebion manwl i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad:

Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer mynd i’r afael ag eiddo gwag sy’n pennu blaenoriaethau a thargedau i’r rhoi ar waith, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Dylai hyn gynnwys amcanion a thargedau penodol ar gyfer gweithredu. Dylid cyhoeddi’r cynllun gweithredu erbyn mis Hydref 2020.

Ymateb: **Cytuno**

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd cael cynllun gweithredu yn ei le. Byddwn yn awgrymu ein bod yn parhau i ddarparu cynlluniau gweithredu unigol ar gyfer pob awdurdod lleol a bydd Llywodraeth Cymru'n casglu'r wybodaeth hon ynghyd er mwyn creu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Byddwn yn awgrymu ein bod yn cynnwys amcanion a dangosyddion cyffredinol Llywodraeth Cymru a hefyd yr amcanion lleol a'r camau gweithredu cysylltiedig ym mhob ardal. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu addasu i'r amgylchiadau gwahanol iawn y mae pob Cyngor yn eu hwynebu. O ystyried maint y gwaith sydd ynghlwm â chreu'r camau gweithredu hyn, byddwn yn awgrymu bod y drafft cyntaf yn cael ei lunio erbyn mis Hydref 2020 a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol terfynol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei gwaith gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, bwysleisio pwysigrwydd dulliau cymunedol i sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei blaenoriaethu a bod cynlluniau ar gyfer ymdrin ag eiddo gwag yn adlewyrchu barn cymunedau yn briodol.

Ymateb: **Cytuno**

Byddwn yn mabwysiadu'r dull gweithredu hwn wrth ymdrin ag eiddo gwag. Bydd fy swyddogion yn y Tîm Gorfodi yn mynnu arferion gwaith agored sy'n cynnwys y gymuned gyfan er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Rydym wedi dechrau ar y broses hon drwy sicrhau bod cynrychiolwyr ar draws yr awdurdod yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad hyfforddi er mwyn dechrau'r trafodaethau hyn.

Mae fy nhîm hefyd wedi dechrau trafod â landlordiaid cymdeithasol a chydweithwyr sy'n ymwneud â thai cydweithredol a byddwn yn eu hannog i rannu â Llywodraeth Cymru eu hatebion i fynd i'r afael ag eiddo gwag. Bydd yr wybodaeth hon yn rhan o'n Pecyn Cymorth Eiddo Gwag a fydd ar gael erbyn mis Ionawr 2021.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yr effaith y gall penodi swyddog penodedig i fod yn gyfrifol am eiddo gwag ei chael. Dylai weithio gyda nhw i alluogi'r rôl neu'r swyddogaeth benodol hon i fod ar gael i bob awdurdod ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu adnoddau i gefnogi ei gweithrediad os oes angen. Dylid ystyried a all mwy nag un awdurdod rannu swyddog penodedig, os yw hynny'n briodol i faint y broblem yn lleol.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol y pecyn cymorth sy'n angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Byddwn yn llunio cynllun gweithredu gyda phob awdurdod lleol, a bydd hyn nid yn unig yn cyfrannu at y Cynllun Cenedlaethol ond hefyd yn rhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sydd ei angen i weithredu'r cynllun. Nid oes angen yr un lefel o gymorth ar bob awdurdod lleol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar yr adnoddau sydd eu hangen ar bob awdurdod lleol erbyn mis Medi 2020.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC i ddiweddaru Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus/013 er mwyn mesur llwyddiant y camau i ailddefnyddio eiddo a fu'n wag ers 12 mis yn hytrach na'r 6 mis cyfredol.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn fodlon gwneud hyn, ac rydym hefyd yn cydweithio â Chyngor Sir Powys i ddarparu cyfres o ddangosyddion sylfaenol y byddwn yn annog Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i'w defnyddio mewn adroddiadau yn y dyfodol. Bydd yr wybodaeth hon ar gael erbyn mis Ionawr 2020, ond byddwn yn dechrau trafod â CLlLC ar unwaith.

Y goblygiadau ariannol: Gwariant posibl o £50-60k ar gyfer data sylfaenol

Argymhelliad 5

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddatblygu dull o gasglu data ar eiddo gwag nad yw'n dibynnu'n llwyr ar restr brisio'r dreth gyngor er mwyn cynnwys eiddo sydd wedi dadfeilio ac eiddo dibreswyl yn PAM/013.

Ymateb: **Cytuno**

Fel y nodir uchod rydym yn bwriadu darparu'r data sylfaenol hyn, a fydd yn cynnwys eiddo gwag nad yw'n cael eu casglu mewn casgliadau data'r dreth gyngor.

Y goblygiadau ariannol: Gwariant posibl o £50-60k ar gyfer data sylfaenol

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol yn archwilio ac yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o sefydlu ffynhonnell ranbarthol neu genedlaethol o arbenigedd cyfreithiol i dimau eiddo gwag gael mynediad iddi, a chynnwys dyddiad ar gyfer gweithredu hyn yn y cynllun gweithredu ar eiddo gwag a argymhellwyd gennym.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn fodlon dechrau'r broses hon a byddwn yn chwilio am yr atebion yn ein Partneriaethau Adfywio Rhanbarthol presennol. Rydym yn hapus i gynnwys yr wybodaeth hon yn y cynllun gweithredu. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael fframwaith caffael er mwyn sicrhau prosesau caffael cyflymach a haws mewn perthynas â phob agwedd ar reoli eiddo gwag, a bydd hyn yn cynnwys arbenigedd cyfreithiol. Rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y Pecyn Cymorth Eiddo Gwag.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC i gynnal adolygiad o'r pwerau gorfodi statudol cyfredol sydd ar gael i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag eiddo gwag ac asesu sut y gellid defnyddio'r rhain yn fwy effeithiol, eu cydgrynhoi, eu symleiddio neu eu hymestyn. Dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o'r cynnig i gyflwyno proses Gorchymyn Gwerthu Gorfodol yn yr Alban, a ph'un a fyddai dull o'r fath yn addas yng Nghymru. Dylai cwmpas yr adolygiad hefyd gynnwys sut y gall Llywodraeth Cymru indemnio costau camau gorfodi a gymerir gan awdurdodau lleol.

Ymateb: **Cytuno mewn Egwyddor (yn amodol ar gyfrifiadau'r gyllideb fel rhan o'r adolygiad hwn)**

Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r prosesau deddfwriaethol sy'n weithredol ar hyn o bryd a'u symleiddio er mwyn eu gwneud yn fwy llwyddiannus. Rydym yn hapus i

adolygu’r Gorchymyn Gwerthu Gorfodol mewn ymgynghoriad â'n cydweithwyr yn y maes cynllunio, gan ystyried a fyddai’n ymarferol ei weithredu yng Nghymru.

Byddwn yn archwilio p’un a allwn indemnio'r costau, ac os felly, sut y gallwn wneud hynny.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 8

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â’i hyfforddiant arfaethedig i swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol ar yr opsiynau gorfodi sydd ar gael i’w cynorthwyo i fynd i’r afael ag eiddo gwag, ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cynulliad ar y cynnydd o ran cynnal y sesiynau erbyn Pasg 2020.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn y broses o gaffael yr arbenigedd sydd ei angen i ddarparu'r hyfforddiant hwn ac rydym yn bwriadu dechrau cyflwyno'r hyfforddiant ym mis Ionawr 2020. Mae'r contract wedi datgan bod yn rhaid cwblhau pob digwyddiad hyfforddi, a’r digwyddiadau cynllunio dilynol, erbyn diwedd Medi 2020. Fodd bynnag, rydym yn fodlon rhoi adroddiad cynnydd i chi erbyn Pasg 2020.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a CLILC yn adolygu’r cymorth y mae’n ei ddarparu i gynlluniau sy’n cynnig cymorth ariannol i berchnogion eiddo gwag yn rheolaidd. Dylai hyn asesu effeithiolrwydd cynlluniau presennol, gyda’r bwriad o ddatblygu atebion cyllido hyblyg sy’n sensitif i anghenion lleol yn y dyfodol.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn cydnabod ein bod o bosibl wedi gor-symleiddio'r gofynion ariannol mewn perthynas ag eiddo gwag, a gwyddom fod angen i ni ddarparu pecynnau ariannu sy'n fwy hyblyg a chreadigol er mwyn mynd i'r afael â'r materion mewn cymunedau. Rydym yn cydnabod hyn a byddwn yn rhoi strwythur adolygu yn ei le gyda digon o gyfle i gael mewnbwn gan CLILC cyn mis Mehefin 2020.

Y goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 10

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’r sector cymdeithasau tai i ddeall yn well y prosiectau sydd ganddi ar waith i ailddefnyddio eiddo gwag fel tai fforddiadwy. Dylai’r canfyddiadau gael eu rhannu fel enghreifftiau o arfer da gyda landlordiaid cymdeithasol eraill. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried y potensial i

gyflwyno cynlluniau tebyg ledled Cymru a, lle bo angen, dyrannu adnoddau i alluogi hyn i ddigwydd.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn hapus i gydweithio â chymdeithasau tai a rhaid i hyn hefyd gynnwys yr awdurdodau lleol. Mae gennym ddiddordeb bob amser mewn arferion gorau ac atebion arloesol ar gyfer adnewyddu eiddo gwag. Rydym yn cydnabod bod cymdeithasau tai yn rhan allweddol o hyn, a byddwn yn cydweithio â nhw i ddeall pa adnoddau sydd eu hangen. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod cynrychiolwyr o'r cymdeithasau tai yn rhan o'r gwaith o greu'r pecyn cymorth, a bydd eu cyfraniad yn amhrisiadwy.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 11

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r sefyllfa gyfreithiol sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag eiddo gwag ac yn darparu arweiniad ar hynny. Dylai hyn gynnwys dewisiadau amgen ymarferol os yw awdurdodau lleol wedi'u cyfyngu o ran yr hyn y gallant ei rannu oherwydd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Ymateb: **Cytuno**

Rydym yn cydnabod bod diogelu data personol pobl yn bwysig iawn ac rydym yn sicr bod ffordd o rannu gwybodaeth heb beryglu eu preifatrwydd. Rydym yn awyddus iawn i gydweithio â chydweithwyr ym maes y gyfraith a diogelu data er mwyn dod o hyd i ateb addas. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn cyn gynted ag y bydd ar gael.

Y goblygiadau ariannol: Anhysbys (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)

Argymhelliad 12

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o neilltuo refeniw a gesglir gan awdurdodau lleol drwy bremiwm y dreth gyngor ar gartrefi gwag, i'w ddefnyddio'n benodol at ddibenion tai. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ei chanfyddiadau.

Ymateb: **Gwrthod**

Rwy'n rhannu'r cyfrifoldeb am yr argymhelliad hwn gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd. Ystyriwyd y cwestiwn hwn yn llawn cyn cyflwyno'r pwerau i gyflwyno premiymau. Un o nodweddion allweddol y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyllid Llywodraeth Leol yw bod holl incwm y dreth gyngor, ynghyd â'r cyllid a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol blynyddol, yn rhan o'r adnoddau heb eu neilltuo sydd ar gael i awdurdodau. Mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu eu cyllidebau refeniw eu hunain ac, yn eu tro, lefelau'r dreth gyngor, a hefyd am benderfynu sut i

ddefnyddio’r adnoddau hyn i fodloni anghenion a blaenoriaethau lleol. Maent wedi pwysleisio’n gyson eu dymuniad i gael yr hyblygrwydd mwyaf posibl wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn. Fodd bynnag, anogwyd awdurdodau i ddefnyddio'r incwm ychwanegol a gânt o bremiymau'r dreth gyngor i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â’r cyflenwad tai lleol.

Y goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 13

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a CLILC yn cynnal ymarfer i asesu a yw pobl yn cymryd camau i osgoi talu premiwm y dreth gyngor, gan gynnwys newid categori eiddo i fod yn llety hunanarlwyo neu drwy honni bod aelod o’r teulu wedi symud i eiddo gwag er mwyn cael disgownt person sengl. Pe bai’r ymarfer yn dangos cynnydd sylweddol mewn arferion o’r fath, dylid cymryd camau pellach i atal pobl rhag osgoi premiymau’r dreth gyngor.

Ymateb: **Cytuno mewn Egwyddor (yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach)**

Mae polisi’r dreth gyngor yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd. Mae pwerau disgresiwn awdurdodau lleol i gyflwyno premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor a/neu ail gartrefi wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill 2017, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro gweithrediad y pwerau newydd hyn fel y nodwyd yn ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi. Rydym wedi bod yn cydweithio â CLILC, awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio i asesu’r defnydd o’r pwerau, i nodi unrhyw batrymau ac i sicrhau bod arfer da yn cael eu rhannu rhwng awdurdodau. O gofio nad oes llawer o amser wedi mynd heibio ers cyflwyno'r pwerau ac mai nifer fach o awdurdodau sydd wedi cyflwyno'r premiwm, mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn. Gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth o achosion posibl o osgoi er mwyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu hystyried fel rhan o'r gwaith parhaus hwn.

Y goblygiadau ariannol: Dim

Hannah Blythyn AC

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA-P-JJ-3394-19
Ein cyf/Our ref: MA-P-JJ-3394-19

29 Tachwedd 2019

Annwyl John

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 4 Tachwedd, ar ôl imi fod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cydnabod mor gyflym rydym yn gweithio i atal digartrefedd a chymaint o frys sydd yna i wneud hynny, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion tymor byr y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Ar 8 Hydref 2019, cyhoeddwyd dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd ac mae'n amlinellu'r ffordd y mae angen gweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd o bob math; atal y broblem rhag codi yn y lle cyntaf ac ailgartrefu pobl yn fuan sy'n cael y lle blaenaf. Er y bydd pawb yn gytûn ynghylch y rhan fwyaf o'r atebion i ddigartrefedd, rwy'n cydnabod yr angen i weithredu'n wahanol gyda gwahanol grwpiau. Mae ein fframwaith strategol yn caniatáu ar gyfer hyn, ac un o'r prif egwyddorion polisi yw y dylai pob gwasanaeth roi'r lle canolog i'r unigolyn. Fodd bynnag, yn y bôn, rydym am greu system sy'n gweithio i bawb.

Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn cydnabod y berthynas gymhleth rhwng camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl ac anghenion llety. I gefnogi ein ffordd o weithio ar draws y Llywodraeth, rydym wedi cytuno ar gamau cyffredin yng Nghynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022, a Chynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019 i 2022 - mae'r ddau gynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf. Mae'r ddau gynllun yn nodi camau sy'n rhoi blaenoriaeth i dai a'r angen i gefnogi unigolion sydd ag anghenion cymhleth a/neu sydd â mwy nag un angen cymhleth.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, soniais am gyllid ychwanegol penodol ar gyfer y rheini sydd ag anghenion cymhleth, hy cyllid o'r gyllideb iechyd sydd wedi'i ddarparu ar gyfer 2019-20 a 2020-21 i gefnogi'r flaenoriaeth hon, gan gynnwys cefnogi dull gweithredu Tai yn Gyntaf. Yn dilyn proses ymgeisio, cytunwyd ar gyllid yn ardaloedd Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr, Powys, Caerdydd a'r Fro, ac Aneurin Bevan, sef cyfanswm o £1.3m. Mae fy swyddogion a swyddogion iechyd hefyd yn cynnal trafodaethau yn ardal Bae Abertawe, o ystyried y lefel uchel o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sydd wedi'u cofnodi yn ystadegau swyddogol y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rydych yn ei gydnabod yn eich llythyr, rydym ar fin dechrau ar raglen newid uchelgeisiol. Rwy'n cytuno ei bod yn hollbwysig gwerthuso ac asesu effaith y newid hwnnw, yn benodol rhoi sylw i safbwyntiau'r rheini sy'n derbyn y cymorth a'r gwasanaethau. Un arall o'r egwyddorion polisi allweddol a amlinellir yn ein dull gweithredu strategol yw y dylai'r rheini sydd â phrofiad o'r gwasanaethau a ddarperir gydweithio i'w llywio. Bydd rhoi ein dull gweithredu ar waith, felly, yn golygu gwerthuso'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau drwy eu holi. Rydym eisoes yn cynnwys yr elfen werthuso yn y rhaglenni rydym wedi eu cychwyn, ee rydym wrthi'n cynnal gwerthusiad annibynnol o raglen Tai yn Gyntaf ac o'r prosiectau a gynhelir o dan y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref.

Rwy'n cydnabod y galw sydd yna ar bob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, a dyna pam mae'n hollbwysig ein bod yn buddsoddi yn yr ymyriadau cynharaf y cydnabyddir eu bod fwyaf effeithiol a chost-effeithiol. Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, mae'n bwysig cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid yn sylweddol ers cyflwyno deddfwriaeth 2014 i atal a lleihau digartrefedd. Yn ogystal â chyllid ychwanegol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, rydym yn darparu dros £20m y flwyddyn ariannol hon yn unig, yn benodol ar gyfer atal a lleihau digartrefedd, gan gynnwys cysgu allan.

Rydym hefyd yn sicrhau bod y cyllid ehangach ar gyfer cymorth tai yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i atal a lleihau digartrefedd. Mae datblygu'r Grant Cymorth Tai wedi rhoi cyfle inni sicrhau mwy o gysondeb o ran y Grantiau Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd a chanllawiau i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau a gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn datblygu'n gyflym yn ystod y flwyddyn, a chan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar ganllawiau diwygiedig y Grant Cymorth Tai.

Rwyf am ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am barhau i ymddiddori yn y maes hollbwysig hwn, sy'n galw am ymdrech gan bawb ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nghymru os ydym i gyrraedd ein nod cyffredin, sef rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol